

Gweminarau

 **9** O WEMINARAU WEDI'U CYNNAL gyda  **120** O WYLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Cynllunio ymlaen llaw: Rheoli cloffni cyn-hwrdda
- Cynllunio ar gyfer cadw anifeiliaid dan do dros y gaeaf
- Rheoli llyngyr yn gynaliadwy mewn defaid a gwartheg
- Llety Moch ar gyfer iechyd a lles da






Digwyddiadau ar fferydd

 **12** CYNHALIWYD DIGWYDD AR FFERM gyda  **330** O FNYCHWYR

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

- Lleihau allyriadau amonia mewn uned dodwy – Wern, Y Trallwng
- Diwrnod agored Safle Arddangos – Moelogan Fawr, Llanrwst
- Datrysiaid storio slyri – Graig Olway, Brynbuga
- Sut y gall technoleg deallusrwydd artiffisial helpu i leihau achosion o gloffni ar y fferm – Erw Fawr, Ynys Môn

Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

-  MAPIO PARASITIAID LLYNGYR YR IAU I'W RHEOLI MEWN FFORDD FWY CYNALIADWY AC YN WELL
-  ISADEILEDD AMAETHYDDOL: CARTREFI HAPUS YN HELPU IECHYD
-  ISADEILEDD AMAETHYDDOL: INTEGREIDDIO TECHNOLEG ER BUDD IECHYD A LLES ANIFEILIAID
-  GWLEDDA FEL BRENHINOEDD — SUT I ATAL ADAR RHAG BWYTA DOGNAU CYMYSG CYFLAWN
-  DEFNYDDIO SEMEN Â'R RHYW WEDI EI BENNU A THECHNOLEGAU GENYNNOL I WELLA BUCHESI LLAETH A BÎFF

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy gategorïau Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 11 o unigolion gymorth un-i-un drwy gategorïau Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 13 (o unigolion) 40 (grŵp) o grwpiau gefnogaeth drwy gategorïau Da Byw'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarparu'r gwasanaeth Cyngori hwn:

“Defnyddiol i greu cynllun symud ymlaen ar gyfer buches llwyddiant a safoni gweithdrefnau.”

Rhwydwaith Arddangos

Lleihau achosion o dwymyn llaeth a phica yn Nantglas

Mae defnyddio nifer o strategaethau i atal twymyn llaeth yn talu ar ei ganfed ar Safle Arddangos Nantglas, lle roedd Iwan Francis, sy'n cynhyrchu llaeth ar system loia mewn dau floc, wedi profi lefelau uchel o dwymyn llaeth yn ei fuches o gwmpas amser lloia.



Ffigwr 1. Iwan Francis ffarmwr arddangos Cyswllt Ffermio.

Trwy ei waith prosiect fel ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio, cyflwynodd Mr Francis gyfres o fesurau i ychwanegu magnesiwm cyn lloia, yn dilyn cyngor gan y milfeddyg, Kate Burnby. Roedd porthiant isel mewn potasiwm, a gynhyrchwyd yn hwyrach yn y tymor ac ar dir gyda llai o fewnbwn gwrtaith, yn cael ei gynhyrchu i fwydo gwartheg sych. Awgrymodd Ms Burnby, milfeddyg

sy'n arbenigo mewn ffrwythlondeb gwartheg, y dylai'r porthiant hwn ddod o wyndonnydd a glaswelltau mwy aeddfed. Mae Mr Francis yn ychwanegu magnesiwm clorid wedi'i fesur at ddŵr yfed ei wartheg sych bob dydd: er mwyn goresgyn y broblem fod gwartheg sy'n lloia yn yr hydref yn yfed llai o ddŵr ar y borfa, mae bellach wedi dechrau lloia heffrod a gwartheg sy'n lloia am yr eildro ar y borfa, ac mae'n cadw'r gweddill dan do am bythefnos cyn lloia, ac yn bwydo silwair iddynt.

Gan fod y porthiant hwn yn sychach na glaswellt, mae'n annog y gwartheg i yfed mwy o'r dŵr sydd wedi'i drin gyda magnesiwm. Mae gwartheg yr ystyrir eu bod yn risg uchel hefyd yn derbyn bolws magnesiwm ychydig wythnosau cyn lloia. Mae'r agwedd ragofalus er mwyn atal twymyn llaeth wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer fechan iawn o achosion yn unig. Eleni, dim ond pum buwch oedd angen triniaeth calsiwm ar ôl lloia, o'i gymharu â 14 yn y flwyddyn flaenorol, ac fe wellodd pob un yn sydyn iawn gyda thriniaeth – ni chafwyd unrhyw wartheg yn gorwedd a methu â chodi, na cholledion.


Roedd lefelau magnesiwm isel hefyd wedi cael eu nodi fel ffactor mewn problem a oedd yn codi dro ar ôl tro gyda phica - cyflwr a oedd wedi bod yn achosi i wartheg Mr Francis fwyta llawer iawn o bridd, cerrig a gwrthrychau eraill yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf. Er mwyn gallu deall y broblem yn well, dadansoddwyd y maetholion a'r mwynau a oedd ar gael yn y diet. Cymerir yn aml fod pica yn gysylltiedig â diffyg ffosforws, ond roedd y gwaith monitro ar fferm Nantglas yn nodi bod magnesiwm hefyd yn ffactor. Yn y samplau glaswellt ffres a ddadansoddwyd, roedd lefelau magnesiwm yn isel iawn, a chafwyd hefyd lefelau isel o gopr, sinc, seleniwm a chobalt.


Dywedodd yr arbenigwr glaswelltir a phridd, Nigel Howells, a fu'n cynghori ar y prosiect hwn, fod y sefyllfa'n cyd-fynd â'r dadansoddiad mwynau yn y glaswellt yr oedd wedi'i gwblhau ar ffermydd eraill, a oedd hefyd wedi profi problemau gyda phica.

Roedd lefelau magnesiwm a ffosforws yn y pridd ar fferm Nantglas o'r samplau a ddadansoddwyd ar fynegai o 2:fodd bynnag, er mwyn i'r pridd fod ar ei fwyaf cynhyrchiol, dylai'r mynegai fod yn 3, yn ddelfrydol. Gwelwyd bod lefel uchel o sylffwr gweddilliol. Cyngorodd Mr Howells y ffermwyr i ystyried y math o wrtaith y maen nhw'n e i wasgaru, gan fod rhai ohonynt yn cynnwys sylffwr. Edrychwyd hefyd ar y cydbwysedd calsiwm-magnesiwm yn y pridd ar fferm Nantglas, a oedd yn dangos cydbwysedd o 15:1, o'i gymharu â'r 7:1 delfrydol. Cyngorir ffermwyr i drafod ychwanegu elfennau macro ac elfennau hybrin gyda milfeddyg eu fferm, fel ffordd o gydbwysu unrhyw ddiffygion nes bod modd sicrhau'r cydbwysedd cywir yn y glaswellt.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Ceredig Evans: Mae'r cyfranogwr hwn yn y Gyfnewidfa Rheolaeth yn ymweld ag amrywiaeth o ffermydd llaeth sy'n defnyddio systemau gwahanol i'w rai ei hun, sy'n cael cnwd uchel o borthiant a phori, yn ogystal ag ystyried manteision lloea mewn bloc i weld a yw hon yn system y gellid ei gweithredu yn ei fusnes ei hun. Drwy ymweld â busnesau sydd wedi derbyn arweiniad yn y gorffennol ar wneud y datblygiadau busnes priodol ac sy'n cyflawni canlyniadau da, mae Ceredig yn ceisio derbyn cyngor newydd i helpu i wneud penderfyniadau newydd a gwell a fydd o fudd i'w fusnes. I weld adroddiad terfynol Ceredig, cliciwch [yma](#).

 **26** O BROSIECTAU WEDI'U CYMERADWYO YN GWEITHIO gyda

 **173** O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR



Gwella ffrwythlondeb a chyfraddau lloia buchesi llaeth yn ne-orllewin Cymru trwy ddull o gael diagnosis cyfebu cynnar gan ddefnyddio protein B sy'n benodol i feichiogrwydd (PSPB)

Cemegyn yw PSPB sy'n cael ei gynhyrchu gan anifail cnoi cil cyfeb, ac mae'n ddull dibynadwy o ragweld beichiogrwydd.

Mae pedwar o ffermwyr llaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda chyfanswm o tua 1,700 o anifeiliaid, wedi bod yn gweithio gyda'r Dr Sotirios Karvountzis o Filfeddygol Mendip, Llandeilo, i ymchwilio a ellir defnyddio PSPB fel dull o ddynodi beichiogrwydd yn gynnar mewn buchod llaeth, o fewn 30 a 120 diwrnod o gael tarw. Gall canfod anffrwythlondeb yn gynnar mewn buches laeth arwain at driniaethau amserol a phriodol gan ymgynghori â milfeddyg y fferm.

Ar ddechrau'r prosiect, rhannwyd y buchod yn ddau grŵp ar hap: canfod beichiogrwydd trwy sganio uwchsain a chanfod beichiogrwydd trwy sampl gwaed. Defnyddiwyd gwir ddyddiadau lloia'r anifeiliaid fel y meincnod i gymharu gyda chanlyniadau'r ddau ddull.

Roedd pob dull yn rhoi tri chanlyniad posibl: 'positif' pan oedd beichiogrwydd yn cael ei ganfod, 'negyddol' pan nad oedd yr anifail yn gyfeb, neu ei bod yn rhy gynnar i ganfod y beichiogrwydd, ac yn olaf 'ail-wirio' pan oedd amheuaeth bod yr embryo yn marw neu'n cael ei ail-amsugno.

	PSPB	Sganio uwchsain
Cywirdeb wrth ragweld canlyniad cadarnhaolt	94%	95%
Cywirdeb wrth ragweld canlyniad negyddol	87%	86%

Roedd y canlyniadau'n cymharu'n ffafriol iawn, ac mae anfanteision a manteision gyda'r ddau ddull, felly yn y pen draw mae'n dod i lawr i ba ddull sy'n gweddu orau i'r ffermwr.

	Anfanteision	Manteision
PSPB	<ul style="list-style-type: none"> Mae sampl gwaed yn ofynnol, ac mae angen hyfforddiant neu filfeddyg i'w gasglu Ni all bennu cam y beichiogrwydd, y gyfradd gefeilliaid na'r rhyw 	<ul style="list-style-type: none"> Mae casglu sampl gwaed yn broses gyflym, a gellir gwneud hynny unrhyw bryd, gan leihau tarfu ar drefn feunyddiol da byw Dychwelir y canlyniad o'r labordy yn gyflym a chaiff ei anfon at y milfeddyg a'r ffermwr i'w drafod
Sganio uwchsain	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen profiad o'i weithredu Bydd yn tarfu ar drefn feunyddiol anifeiliaid tra byddant yn disgwyl i gael eu harchwilio 	<ul style="list-style-type: none"> Gall nodi efeilliaid (neu feichiogrwyddau lluosog), cam y beichiogrwydd a'r rhyw

Mae protocol o'r fath yn cynnig offeryn arall i ganfod beichiogrwydd nad yw'n ddrud ac mae'n rhagweithiol, gan arwain at well cyfraddau beichiogi, ond hefyd mae'n rhoi cyfle i'r hwsmon weithio'n glos gyda milfeddyg y fferm. Y canlyniad yn y pen draw yw sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill – y milfeddyg, y ffermwr a'r fuwch. Mae'r effaith ar ymddygiad a chynhyrchiant yr anifail yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl, gall menter y fferm arbed arian, a gall y milfeddyg barhau ei ymwneud â'r fuches a'i oruchwyliaeth drosti.



Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid



32 O GWEITHDAI gyda



382 YMWELWYR

Enghreifftiau o weithdai a gynhaliwyd:

- Ymwrthedd i Wrthfotigau
- Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD).
- Magu lloia iach a sicrhau'r elw mwyaf.
- Cloffni mewn Defaid
- Rheoli parasitiaid mewn defaid – Rhan 2: Y clafr, llau a llyngyr yr iau

Grwpiau trafod



Cynhaliodd HCC gyfres o Fforymau ar gyfer Ffermwyr Cig Coch ar ffermydd ledled Cymru ym mis Hydref 2021. Roedd yn gyfle i drafod a rhannu syniadau am ddyfodol y sector. Ymwelodd Grŵp **Trafod Grŵp Biff Hiraethog** â'r digwyddiad a gynhaliwyd ar fferm aelod o'r grŵp, Paul Williams, yng Nghae Haidd.

Mewn cyfnod hollbwysig i'n diwydiant cig coch, mae ffermwyr yn paratoi at y cyfnod ôl-COVID, ôl-Brexit. Mae'r agenda cynaliadwyedd yn dod yn fwyfwy pwysig. Roedd HCC yn ceisio clywed barn talwyr ardoll ac eraill, a thrafod yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn gyfleoedd a heriau i'r sector yn y cyfnod esblygol.

Fe wnaeth cynrychiolwyr HCC osod y cefndir ar dueddiadau defnyddwyr a rhagolygon y farchnad, a dilynwyd hynny gan drafodaeth agored gyda'r mynychwyr ynghylch cyfeiriad cynlluniau HCC ar gyfer marchnata a gweithgaredd datblygu'r diwydiant yn y dyfodol. Un pwynt trafod diddorol oedd sut yr oedd HCC wedi dewis cefnogi Dyddiau Llun Di-gig yn ysgolion Cymru, ar y sail y dylid defnyddio cig lleol o ffynonellau cynaliadwy o ansawdd gwell am y pedwar diwrnod arall.

Dilynwyd hyn gan ddiweddariad ar y fferm gan y tîm gŵr a gwraig, Paul a Dwynwen Williams, ac yna taith fferm o amgylch datblygiad isadeiledd newydd y fferm i gefnogi eu menter cynhyrchu cig eidion a magu lloia. Ariannwyd hyn gan Grant Cynhyrchu Cynaliadwy Lywodraeth Cymru.

Fe wnaeth aelodau'r grŵp fwynhau'r cyflwyniadau gan gynrychiolwyr HCC a'r ffermwyr oedd yn cynnal y digwyddiad yn fawr. Sbardunodd hynny drafodaeth yn ystod y diwrnodau dilynol ar eu grŵp sgwrsio WhatsApp ynghylch materion a drafodwyd yn y cyfarfod, a sut mae aelodau'r grŵp yn paratoi at heriau sydd ar ddod a gofynion y farchnad o fewn eu busnesau eu hunain.

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd o fewn y cyfnod hwn yn cynnwys:

ELFENNAU HYBRIN MEWN DEFAID



NEWID YN YR HINSAWDD A DA BYW



MASTITIS MEWN GWARTHEG



EFFEITHLONRWYDD PORTHIANT



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer yr unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod hwn
DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI)	38
Defnyddio meddyginiaethau milfeddygol mewn modd diogel	23
Trimio traed gwartheg	21
Defnyddio dip defaid yn ddiogel	21
Sganio defaid	14